Teitl y Swydd: **Hyfforddwr Gweithgareddau neu Awyr Agored**

Math o gontract: **Swydd barhaol, llawn amser (35 awr yr wythnos)**

Graddfa: **Gweithredol 2 (£19,601 - £22,058) neu Gweithredol 3 (£22,295 - £24,952)**
(mae'r raddfa yn ddibynnol ar brofiad, sgiliau a chymwysterau yn y maes)
Bydd modd i ymgeisydd sydd â lefel uchel o sgiliau a chymwysterau awyr agored, a phrofiad helaeth yn y maes, sydd â'r gallu i drefnu a chydlynu cyrsiau a gweithgareddau, fod yn gymwys i gael ei benodi ar Raddfa 4 (£25,211 - £28,223) fel Uwch Hyfforddwr.

Lleoliad: **Gwersyll Glan Llyn, Y Bala**

Amdanom ni

Urdd Gobaith Cymru yw mudiad ieuenctid cenedlaethol mwyaf Cymru sy'n darparu cyfleoedd i blant a phobl ifanc ac yn eu galluogi i wneud cyfraniad cadarnhaol i'w cymuned a'r byd yn ehangach.

Ymysg bwrlwm ein canmlwyddiant, dyma ddatgan ein huchelgais heriol i ymestyn cyrhaeddiad ac effaith ein gwaith. Mae hyn yn allweddol os ydym am i'r Gymraeg fod yn ganolog ym mywydau plant a phobl ifanc Cymru, a sicrhau fod pawb yng Nghymru, boed yn siaradwyr Cymraeg ai pheidio, yn teimlo perchnogaeth ac ymdeimlad o berthyn tuag at yr iaith a'i thraddodiadau.

Y Swydd

Edrychir am Hyfforddwyr i weithio'n bennaf i ddarparu gweithgareddau awyr agored yn y gwersyll. I gyflawni'r swyddi yn effeithiol bydd angen cymwysterau addas a phrofiad o ddarparu gweithgareddau awyr agored i blant a phobl ifanc trwy gyfrwng y Gymraeg.

Am ffurflen gais neu fanylion pellach, cysylltwch â Huw Antur neu Arwel Phillips ar 01678 541000 neu ar e-bost huwantur@urdd.org neu arwel@urdd.org

Anfonwch Ffurflen Gais yr Urdd ar e-bost at swyddi@urdd.org

Dyddiad Cau – 30 Medi 2022

Mae'r Urdd yn cefnogi a hyrwyddo cydraddoldeb ac amrywiaeth yn ein holl waith a gweithgareddau. Rydym yn croesawu ymgeiswyr o bob cefndir a chymuned, ac yn benodol y rhai sydd heb gynrychiolaeth ddigonol yn ein gweithlu ar hyn o bryd. Mae'r rhain yn cynnwys ond nid ydynt yn gyfyngedig i ymgeiswyr anabl a phobl ddiwylliannol ac ethnig amrywiol. ac ethnig amrywiol.

DISGRIFIAD SWYDD			
Teitl y swydd:	Hyfforddwr Gweithgareddau / Awyr Agored	**Lleoliad:**	Gwersyll Glan Llyn
Adran:	Gweithgareddau	**Rheolaeth Llinell:**	Dim
Yn adrodd i :	Dirprwy Gyfarwyddwr Gwersyll Glan Llyn	**Graddfa:**	Graddfa 2: £19,601 - £22,058 Graddfa 3: £22,295 - £24,952 Graddfa 4: £25,211 - £28,223 Yn ddibynol ar brofiad

Prif bwrpas y swydd:

Bydd dyletswyddau'r swydd yn cyfateb i'r hyn a amlinellir eisoes ym manylion y swydd ac yn unol â'r amodau yn y Llawlyfr Staff. Fe all ddigwydd fod gofyn ysgwyddo dyletswyddau ychwanegol a gwahanol o dro i dro.

Prif ddyletswyddau a chyfrifoldebau:

1. Cyfrifoldeb am gynnal ac arwain sesiynau ar weithgareddau amrywiol y Gwersyll.
2. Gweithio fel rhan o dîm yr adran weithgareddau o ddydd i ddydd gan gynnwys cynnal a chadw offer, dilyn rheolau iechyd a diogelwch a pholisïau'r Gwersyll ar bob achlysur.
3. Diogelu rhediad llyfn ac esmwyth holl gyrsiau sy'n ymweld â Glan-llyn.
4. Sicrhau bod pob sesiwn gweithgaredd yn dechrau yn brydlon, yn rhedeg yn llyfn ac o safon angenrheidiol a disgwyliedig yn unol â'r canllawiau
5. Sicrhau bod yr offer priodol ar gael ar gyfer y gweithgaredd a bod pob gwersyllwr yn cael ei ddarparu â'r offer ac adnoddau priodol
6. Sicrhau bod yr holl offer ac adnoddau yn dychwelyd i'w mannau priodol ac adrodd am unrhyw wendidau i'r rheolwr llinell
7. Gweithredu bob amser mewn ffordd sy'n hyrwyddo polisi gofal cwsmer y Gwersyll
8. Sicrhau fod yr holl waith papur perthnasol yn cael eu cwblhau, h.y. cofnodion cynnal a chadw, cofnodion digwyddiadau, offer/adnoddau, manylion y stordy, ayb.
9. Gwisgo dillad addas ar gyfer y gweithgaredd yr arolygir
10. Cydymffurfio gyda pholisïau y Gwersyll, Rheoliadau Iechyd a Diogelwch, canllawiau eraill perthnasol, a bod yn ymwybodol o'r peryglon sy'n deillio o'r gweithgareddau
11. Mynychu cyfarfodydd yr adran a bod yn rhan o drafodaethau er mwyn sicrhau effeithiolrwydd ac asesu holl systemau y gweithgareddau, ynghyd â chynnig syniadau newydd.
12. Ambell dro rhoddir dyletswyddau penodol i unigolyn am ofalu am elfen arbennig o'r gwersyll. Cofnodir pob dyletswydd yn unigol i'r aelod o staff o dan sylw.
13. Cynorthwyo gyda gwaith cyffredinol y Gwersyll fel bo angen

Dyletswyddau ychwanegol os penodir ar raddfa cyflog 4 fel Uwch Hyfforddwr:

1. Bod yn gyfrifol am rediad dydd i ddydd yr adran weithgareddau

2. Bod yn gyfrifol am gynllunio rota gwaith yr adran weithgareddau gan gynnwys monitro a rheoli oriau, gwyliau ac amser dyledus

3. Bod yn gyfrifol am y broses staffio amserlenni a chynllunio adnoddau

4. Hyfforddi hyfforddwyr a phrentisiaid yn y gwersyll mewn sgiliau awyr agored gan gynnwys trefnu a chynllunio cyrsiau gan ddarparwyr cymwys allanol.

5. Gweithredu fel mentor a rhoi arweiniad i hyfforddwyr a phrentisiaid. Mae hyn yn cynnwys cyflawni dyletswyddau gwerthuso'r mudiad o fewn yr adran weithgareddau

6. Cydlynu Cynllun Prentisiaeth Glan-llyn ar y cyd â'r Adran Brentisiaethau.

7. Trefnu, arwain a darparu gweithgareddau ar gyfer rhai cyrsiau penodol a chyfrannu ar ddarpariaeth addysg awyr agored yn ôl anghenion y gwersyllwr. Gall rhai o'r cyrsiau yma fod oddi ar safle'r gwersyll.

8. Arwain Cyfarfod Bore'r Adran Weithgareddau rheoli staff yr adran a rhaglen y gweithgareddau.

9. Croesawu grwpiau i'r gwersyll yn ôl y galw.

10. Darparu gweithgareddau ar ran Gwasanaeth Awyr Agored Glan-llyn. Bydd cyfran helaeth o'r sesiynau hyn oddi ar safle'r gwersyll. Gall hyn gynnwys arwain teithiau a gweithgareddau ledled Cymru ac yn ehangach, gan addasu'r gweithgaredd a'r trefniadau yn ôl anghenion y cwrs amgylchedd y lleoliad ac amgylchiadau'r tywydd, gan weithredu ar yr anghenion yn unol â deddfwriaeth Iechyd a Diogelwch.

11. Gwirio cyflwr offer ac adnoddau gweithgareddau'r gwersyll (PPE), gan ymateb i unrhyw anghenion atgyweirio neu unrhyw offer newydd angenrheidiol. Gweinyddu sustem '*Papertrail'*. Cydlynu archwiliadau allanol megis ERCA, RYA, AALA. Cynnal sustem cofnodi cymwysterau staff yr adran weithgareddau.

12. Gofalu am faterion cymorth cyntaf y Gwersyll, gan gynnwys yr ystafell cymorth cyntaf a hyfforddiant cymorth cyntaf y gwersyll.

13. Bod yn gyfrifol am fonitro ansawdd a diogelwch y gweithgareddau, gan hysbysu staff a rheolwyr o gwersyll o unrhyw newidiadau angenrheidiol.

14. Gweinyddu achrediadau gwersyllwyr a chyfranogwyr (ee RYA, Y Wobr) a sicrhau fod prosesau cywir yn cael eu dilyn.

15. Cynorthwyo Dirprwy Gyfarwyddwr y Gwersyll i lunio a datblygu Canllawiau ac Asesiadau Risg y gwersyll.

16. Cyfrannu at ddatblygiad gweithgareddau newydd yn y gwersyll ar y cyd â'r rheolwyr.

17. Creu cyswllt cryf a pherthynas waith gadarnhaol gyda arweinyddion cyrsiau gan adnabod cyfleon gwaith i'r dyfodol.

Manyldeb y person a'r meini prawf: Cymwysterau, sgiliau a phrofiad

Hanfodol

1. Rhaid cael cymwysterau mewn rhai gweithgareddau awyr agored, e.e canŵio, ceufadu, mynydda, hwylio, dringo.

2. Byddai o fantais os yw'r ymgeisydd wedi gweithio gyda phlant a phobl ifanc.

3. Rhaid bod yn drefnus a meddu ar sgiliau cyfathrebu da. Rhaid meddu ar gymeriad addas i ddelio gydag ystod eang iawn o bobl ac i weithio oddi fewn i fudiad gwirfoddol.

4. Rhaid bod yn rhugl yn y Gymraeg a'r Saesneg a chynhelir sesiynau hyfforddi yn Gymraeg, yn ddwyieithog ac yn achlysurol yn Saesneg.

5. Rhaid bod ag ymwybyddiaeth o ddelfrydau ac amcanion Urdd Gobaith Cymru a gweledigaeth parthed lledaenu a dysgu'r iaith Gymraeg i blant a phobl ifanc Cymru.

6. Byddai profiad o waith gwirfoddol gyda'r Urdd neu unrhyw fudiad gwirfoddol arall o fantais.

Dyletswyddau, sgiliau a phrofiad perthnasol hanfodol i benodi ar Raddfa Cyflog 4 fel Uwch Hyfforddwr :

1. Profiad helaeth a chymwysterau uchel perthnasol i weithgareddau Gwersyll Glan-llyn.

2. Sgiliau trefnu a chydlynu cyrsiau yn y gwersyll.

3. Y gallu i weithredu fel pwynt cyswllt i grwpiau yn ystod eu harhosiad yn y gwersyll.

4. Y gallu i arwain a mentora tim o hyfforddwyr, gan gynnwys prentisiaid awyr agored.

5. Y gallu i weithio'n annibynnol, hyn yn cynnwys darparu gweithgareddau i gyrsiau Glan-llyn Isa.

Gwybodaeth Ychwanegol

1. Mae'r Gwersyll yn cynnig cyrsiau amrywiol iawn – penwythnosau, canol wythnos, cyrsiau hamdden, aml-weithgaredd, cyrsiau daearyddiaeth Safon Uwch/TGAU, cyrsiau iaith (mamiaith ac ail-iaith) i oedrannau cynradd, uwchradd ynghyd â chyrsiau oedolion a theuluoedd.

2. Mae'r ganolfan yn weithredol am 7 diwrnod yr wythnos, trwy gydol y flwyddyn, a bydd yr union amserlen waith i'w drafod gyda gweddill aelodau'r adran weithgareddau, gan gynnwys gweithio ar rota min nos a phenwythnosau.

3. Mae'r gwersyll yn prydlesu dau dŷ yn y Bala ar gyfer staff, ac yn ddibynnol ar argaeledd, mae modd cynnig llety am bris rhesymol.

4. Oherwydd natur rhediad y ganolfan disgwylir i staff fod yn hyblyg yn yr oriau a weithir a'r dyletswyddau yr ymgymerant â hwy.

Nodiadau i ymgeiswyr:

- *I ymgeisio, mae'n rhaid llenwi'r ffurflen gais yn llawn, gan roi enghreifftiau i gefnogi eich atebion. Mae'n rhaid i chi ddangos eich bod yn cwrdd â'r holl feini prawf hanfodol i gael eich cynnwys ar y rhestr fer.*

- *Ar ôl y dyddiad cau, ni fydd yr hysbyseb swydd hon ar gael ar ein Gwefan, felly cofiwch gadw copi ar gyfer eich cofnodion.*

Newidiadau i'r Disgrifiad Swydd:

Gall y disgrifiad swydd hwn newid neu gael ei ddiwygio ar unrhyw amser ar ôl ymgynghori â deiliad y swydd.

Hyblygrwydd:

Tynnir eich sylw at y ffaith fod dyletswyddau a chyfrifoldebau penodol mewn rhai achosion yn anodd eu dadansoddi yn fanwl a gallent newid o dro i dro heb newid cymeriad cyffredinol y dyletswyddau na lefel y cyfrifoldeb.

Yn ychwanegol, mae'n ofynnol i bob aelod o'r staff dderbyn elfennau o hyblygrwydd yn eu dyletswyddau a'u cyfrifoldebau, a phan fo angen, cyfnewid er mwyn cyfarfod anghenion a gofynion y gwasanaeth sy'n newid yn barhaus. Bydd angen o'r fath yn galluogi i arbenigedd penodol y deilydd dyfu a datblygu er lles y cyflogwr a'r gweithiwr.

Adolygiad:
Cyhoeddwyd y disgrifiad swydd yma ym mis Mawrth 2017 ac fe'i hadolygir yn gyson fel rhan o ddatblygiad yr unigolyn, ynghyd ag adolygiad perfformiad.

CRYNODEB O'R TELERAU AC AMODAU (ceir manylion lawn yn Llawlyfr Staff**)**

Teitl y swydd:	Hyfforddwr Gweithgareddau / Awyr Agored
Yn atebol i:	Dirprwy Gyfarwyddwr Gwersyll yr Urdd, Glan Llyn
Cyflog:	Ar raddfa 2 – 3 Strwythur Cyflog yr Urdd : Graddfa 2: £19,601 - £22,058 Graddfa 3: £22,295 - £24,952 gan benodi ar Bwynt 1 oni bai fod profiad a chymwysterau yn teilyngu graddfa uwch. Bydd modd i ymgeisydd sydd â lefel uchel o sgiliau a chymwysterau awyr agored, profiad helaeth yn y maes a'r gallu i drefnu a chydlynu cyrsiau a gweithgareddau yn gymwys i gael ei benodi ar Raddfa 4 (£25,211 - £28,223) ar y Strwythur Cyflog. (gweler adran 'Sgiliau' o'r Swydd Ddisgrifiad).
Cytundeb:	Parhaol
Oriau gwaith:	Wythnos waith sylfaenol yw 35 awr yr wythnos. Oherwydd natur y swydd mae'n ofynnol i'r Hyfforddwr weithio oriau ar fin nos (hyd at 9 y.h.) unwaith yr wythnos ac ar benwythnosau mewn rota. Disgwylir i'r ymgeisydd llwyddiannus fod yn hyblyg yn y cyswllt hwn.
Lleoliad:	Glan Llyn
Gwyliau blynyddol:	Caniateir 25 niwrnod o wyliau blynyddol ac wyth niwrnod o wyliau cyhoeddus - y cyfnodau i'w pennu mewn ymgynghoriad â'r Prif Weithredwr. Bydd y gwyliau'n cynyddu i 28 diwrnod ar ôl 5 mlynedd o wasanaeth ac yna i 33 diwrnod ar ôl 10 mlynedd o wasanaeth.
Cyfnod prawf:	Bydd cyfnod prawf o 6 mis
Pensiwn:	Bydd cyfle i ymuno â chynllun pensiwn yr Urdd ar unwaith, neu mae'n bosibl byddwch yn cael eich cofrestru i gynllun 'Ymgofrestru Awtomatig'.
Gwiriad GDG:	Bydd yn ofynnol i'r ymgeisydd llwyddiannus gael ei wirio gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (GDG)
Archwiliad meddygol:	Cedwir yr hawl i ofyn i'r sawl a benodir mynd o dan archwiliad meddygol cyn cynnig y swydd yn ffurfiol.
Yswiriant Bywyd:	Yn dilyn cwblhau 6 mis yn y swydd byddwch yn ymuno a chynllun yswiriant bywyd yr Urdd sydd yn cynnig yswiriant cyfwerth a 3 gwaith eich cyflog blynyddol trwy gydol eich cyflogaeth gyda'r Urdd hyd at oed 70.